# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Fideo Gynhadledd Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2021

Amser: 09.04 - 09.52

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Mark Isherwood AS<br>Caroline Jones AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood, Dirprwy Glerc |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod yr wythnos diwethaf i'w cyhoeddi

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at newid i fusnes dydd Mawrth i symud yr egwyddorion cyffredinol a'r penderfyniad ariannol mewn perthynas â Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) i ddiwedd y dydd.

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.15pm.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.40pm.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 9 Chwefror 2021**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud)

  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021 ~~(15 munud)~~
  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

**Dydd Mercher 10 Chwefror 2021**

- Dadl: Cyfnod 3 Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) (15 munud)

**Dydd Mawrth 23 Chwefror 2021**

- Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (5 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor o'r Senedd Gyfan ddechrau am 1pm ar 9 Chwefror, gyda'r Cyfarfod Llawn yn dechrau ar ôl iddo ddod i ben. Bydd y Cyfarfod Llawn hefyd yn dechrau am 1pm ar 10 Chwefror.

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 10 Chwefror 2021 –**

- ~~Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)~~ – *gohiriwyd tan 24 Chwefror*
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (30 munud)~~ – *gohiriwyd tan 24 Chwefror*

- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (30 munud)~~ – *gohiriwyd tan 24 Chwefror*d
- ~~Dadl Fer – David Melding (Canol De Cymru)~~ – *gohiriwyd tan 24 Chwefror*

**Dydd Mercher 24 Chwefror 2021 -**

- Dadl ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru (45 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud) – *gohiriwyd o 10 Chwefror*
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (30 munud) – *gohiriwyd o 10 Chwefror*
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (30 munud) – *gohiriwyd o 10 Chwefror*
- ~~Amser a neilltuwyd i Grŵp y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio (30 munud)~~ – *gohiriwyd tan 3 Mawrth*
- Dadl Fer – David Melding (Canol De Cymru) – *gohiriwyd o 10 Chwefror*

**Dydd Mercher 3 Mawrth 2021 –**

- Cynnig i Ddirymu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: A ddylid datganoli darlledu? (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Grŵp y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio (30 munud) – *gohiriwyd o 24 Chwefror*

Diolchodd y Trefnydd i'r Rheolwyr Busnes am symud busnes y Senedd i wneud lle i ddeddfwriaeth y llywodraeth.

## 3.4 Dadleuon ar Gynigion Deddfwriaethol gan Aelod

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 24 Chwefror:

**NNDM7478** Mark Isherwood

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n gwneud darpariaeth i annog pobl i ddefnyddio iaith arwyddion Prydain (BSL) yng Nghymru, a gwella mynediad at addysg a gwasanaethau drwy gyfrwng BSL.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) sicrhau bod gan y gymuned fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw lais yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau;

b) sefydlu grŵp cynghori cenedlaethol BSL i rymuso'r gymuned BSL yng Nghymru;

c) ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyd-gynhyrchu a chyhoeddi cynllun BSL cenedlaethol, a sefydlu nodau strategol i wella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau cymorth a gwella sgiliau BSL ar draws cymdeithas; a

d) ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyd-gynhyrchu a chyhoeddi eu cynllun BSL eu hunain i ddatblygu ymwybyddiaeth a hyfforddiant BSL, a gwella mynediad at wasanaethau rheng flaen.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd mai hwn fyddai'r Cynnig Deddfwriaethol olaf gan Aelod i gael ei amserlennu cyn y diddymiad.

### 3.5 Eitem o fusnes ar y cyd - Senedd Cymru a Senedd Ieuenctid Cymru

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr eitem o fusnes ar y cyd ar 24 Chwefror 2021, i ddechrau am 12:45 ac i'w chymryd cyn busnes y llywodraeth.

### 3.6 Llythyr oddi wrth Llyr Gruffydd

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar y Cynnig i Ddirymu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ar 3 Mawrth 2021.

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl 30 munud ar ddwy ddeiseb - 'P-05-1117 Rhoi'r Brechiad Covid i Swyddogion yr Heddlu fel blaenoriaeth' a 'P-05-1119 Blaenoriaethu athrawon, staff ysgol a gofal plant ar gyfer brechiad COVID-19', a dadl 30 munud arall ar 'P-05-1078 Cynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwella amseroedd aros i bobl sydd angen help mewn argyfwng. Mae angen newid!

## 5 Deddfwriaeth

### 5.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 8 Chwefror fel terfyn amser adrodd i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 5.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dydd Llun 8 Chwefror fel terfyn amser adrodd i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 5.3 Bil Etholiadau Cymru (Coronafeirws) – Effaith ar Fusnes y Senedd

Cytunodd y Pwyllgor Busnes mewn egwyddor y dylai'r Senedd ddechrau ar gyfnod o doriad o 7 Ebrill tan 28 Ebrill 2021 a elwir yn gyfnod 'cyn y diddymiad', ac y dylai busnes y Senedd yn ystod y cyfnod hwn gael ei gyfyngu i'r hyn sy'n gysylltiedig â dibenion penodol y diddymiad byrrach fel yr amlinellir yn y Bil.

Nododd y Pwyllgor, pe bai'r Bil yn cael ei basio, y bydd cynigion manwl yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes yn ei gyfarfod naill ai ar 22 Chwefror neu 1 Mawrth.

Cytunodd y Trefnydd i ddosbarthu canllawiau 'purdah' Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod yr etholiad (toriad cyn y diddymiad a’r diddymiad) i Reolwyr Busnes.

## Unrhyw faterion eraill

### Bil yr Amgylchedd

Dywedodd y Trefnydd wrth y Rheolwyr Busnes fod ystyriaeth o Fil yr Amgylchedd bellach wedi'i rhewi tan y sesiwn seneddol nesaf, ac y byddai swyddogion yn trafod dyddiad cau diwygiedig ar gyfer adrodd ar gyfer y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2).